Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6ed o Dachwedd 2024

Yn bresenol oedd Einion Edwards, Prys Ellis, Dyfan Jones, Menai Hughes, Maria Roberts, Guto Jones, Ffuon Williams, Llio Morris (cadeirydd) a Cyng Gwennol Ellis, cafwyd ymddiheuiadau gan John Jones.
Arwyddwyd y cofnodion blaenorol fel rhai cywir.
Neb yn datgan diddordeb ir agenda.
Gohebiaeth
[1] Canolfan Addysg Uwchaled – llythyr yn gofyn am gyfraniad tuag at yr anrhegion y plant noson goleuo y goeden, roedd y frigan dan yn awyddus i gyfrannu rhan or gost ac bydd y Cyngor Bro yn gwneud y swm i fynnu i £240.00.
[1.1] Llew Gwyn cafwyd llythyr yn gofyn am gyfraniad ir noson tan Gwyllt ar 2ail o dachwedd, pasiwyd i gyfrannu £150.00.
[1.2] Llywodraethwyr Ysgol Cerrig y Drudion cafwyd ymateb in llythyr a anfonwyd yn datgan ein pryder am y giatiau yn cael ei cau yn yr ysgol – nodwyd yn y llythyr bod y giatiau yn cau dim ond pan fydd yr ysgol ar agor felly dim achos i bryderu ar amseroedd eraill lle fydd y giatiau ar agor.
[1.3] Cyngor Sir Conwy – cafwyd llythyr o ddiolch gan lyfrgellydd y sir yn diolch am gael defnyddio yr ystafell plwyf i storio llyfrau tra bod y llyfrgell yn cael ei adnewyddu.
[1.4] Cyngor Sir Conwy – cafwyd llythyr yn nodi bod y toiledau cyhoeddus yn Ngherrig y Drudion yn cau ar 14eg o Hydref 2024.
[1.5] Nan Owen – cafwyd llythyr ar ran yr ofalaeth yn Ngherrig y Drudion yn diolch am ein cyfraniad tuag gostau bws ir daith pererindod a gynhaliawyd yn ystod yr haf.
[1.6] Cyngor Sir Conwy - llythyr yn gofyn am gyfraniad ir cynllun chwarae yr haf 2025. Pasiwyd ei adael am y tro ai drafod yn mis Ionawr yn ein cyfarfod nesaf.
[1.7] Cyngor Sir Conwy - wedi derbyn y taliad grant olaf am yr astudiaeth Dichnoldeb gan Marc Roberts £1,987.47. ( mae 10% wedi ei dynnu or cais a wnaethbwyd dyma'r gwahaniaaeth ir isod).
[1.8] Marc Roberts – talwyd i Marc am wneud y Gwaith astudiaeth dichnoldeb taliad terfynnol £2,484.38.
[1.9] Cyngor Sir Conwy - anfoneb am y cynllun chwarae yr haf 2024 £400.00 pasiwyd iw dalu.
[2] Archwilio Cymru – anfoneb am y Gwaith archwilio cyfrifon £200 pasiwyd iw dalu.
[2.1] Scottish Power - anfoneb am drydan £21.68 wedi ei dalu DD.
[2.2] Emyr Mortimer – anfoneb am wneud cyflog y clerc £39.00 pasiwyd iw dalu.
[2.3] Ceir Cymru - cafwyd anfoneb am y petrol a ddefnyddiwyd ir dori gwair y fynwent newydd £118.42 pasiwyd iw dalu.
[2.4] Glyn Lloyd Hughes – cafwyd anfoneb am y Gwaith torri y fynwent newydd £1,456.00 pasiwyd iw dalu.
[2.5] Sul y cofio – mae y clerc wedi prynnu torch ir gwasanaeth ddydd sul ar gost oedd £20.00 pasiwyd i dalu y clerc, bydd ein cadeirydd sef Llio Morris yn gosod y dorch fore y gwasanaeth. Rydym wedi anrhegu Mrs Brenda Jones am ei gwasanaeth o 35 mlynnedd yn dosbarthu y pabi coch prynnwyd blodau mewn pot iddi fel anrheg ac anfonwyd cerdyn o ddiolch. Yn yr un modd rydym yn anfon cerdyn o ddiolch yn gwerthfawrogi y gwaith mae Alan Jones yn ei roi yn y golgolofn bob blwyddyn. Byddwn yn ymgynnull am 10 for sadwrn i glirio y dail ar y sgwar cyn y gwasanaeth fore sul ir rhai sydd yn gallu ymuno.
[2.6] Toiledau - pasiwyd ein bod yn cysylltu a Marc Roberts i gael cymorth i geisio am grant tuag at costau cyfreithiol pan fydd y toiledau yn cael ei trosglwyddo ir Cyngor Cymuned.
[2.7] Adroddiad y Cyng Gwennol - dywedodd bod 17 wedi dangos diddordeb i gael ty rhent y 5 deiliad sydd ar gael yn Uwchaled ond dim ond 2 oedd yn gymwys felly dywedodd mwy na thebyg

fydd rhai or tai Cartrefi Conwy yn cael ei gwerthu.  Dywedodd bod angen cael mwy o wirfoddolwyr ir gwasanaeth gwn gyrru os oedd rhywun yn gwybod am rai i wirfoddoli er mwyn cael dal i ddefnyddio y gwasanaeath.

[2.8]  Cygor Sir Conwy  - clerc i gysylltu i gael torri y gwrych drain a r lwybr troed yn Maes Aled, ac hefyd cysylltu a perchenog Trem Eryri i gael tori gwrych drain yn y deiliad dan sylw sydd yn dod allan ir palmant.

[2.9]  Twrch yn y fynwent – clerc i gysylltu a Wyn Jones.

[3]   Cynyrchiolaeth ar pwyllgor y Ganolfan  Prys Ellis a Menai Hughes.

[3.1]  Ffioledd claddu  derbyniwyd £700.00.